

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Llun, 22 Medi 2014

Amser:

14.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Gareth Williams

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8008/8019

PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

Agenda

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
- 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalennau 1 – 2)
CLA(4)–22–14 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

CLA443 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffisiotherapyddion–ragnodwyr, Podiatryddion–ragnodwyr neu Giropodyddion–ragnodwyr Annibynnol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 27 Awst 2014; Fe'u gosodwyd ar: 29 Awst 2014; Yn dod i rym ar: 24 Medi 2014.

CLA445 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 3 Medi 2014; Fe'u gosodwyd ar: 5 Medi 2014; Yn dod i rym ar: 29 Medi 2014 ar wahân i'r hyn y darperir ar eu cyfer yn rheoliad 1(1).

CLA447 – Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2014
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 5 Medi 2014; Fe'u gosodwyd ar: 5 Medi 2014; Yn dod i rym ar: 26 Medi 2014.

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

CLA442 – Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014 (Tudalennau 3 – 13)
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 20 Awst 2014; Fe'u gosodwyd ar: 22 Awst 2014; Yn dod i rym ar: 19 Medi 2014.

CLA(4)–22–14 – Papur 2 – Adroddiad

CLA(4)–22–14 – Papur 3 – Rheoliadau

CLA(4)–22–14 – Papur 4 – Memorandwm Esboniadol

CLA444 – Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 (Tudalennau 14 – 86)
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 28 Awst 2014; Fe'u gosodwyd ar: 29 Awst 2014; Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3) i (6).

CLA(4)–22–14 – Papur 5 – Adroddiad

CLA(4)–22–14 – Papur 6 – Rheoliadau

CLA(4)–22–14 – Papur 7 – Memorandwm Esboniadol

4 Papur i'w nodi

Gohebiaeth ynghylch yr adolygaid o Gomisiynydd Plant Cymru (Tudalennau 87 – 90)
CLA(4)–22–14 – Papur 5 – Llythyr

5 Tystiolaeth mewn perthynas â'r Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) (Tudalennau 91 – 109)

(Amser a ddynodwyd: 14.15)

Bethan Jenkins AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru);

CLA(4)–22–14 – Papur 9 – Llythyr gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

CLA(4)–22–14 – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

CLA(4)–22–14 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

Adroddiad drafft ar y Bil Addysg Uwch (Cymru) (Tudalennau 110 – 142)

CLA(4)–22–14 – Papur 10 – Adroddiad drafft

Blaenraglen waith (Tudalennau 143 – 144)

CLA(4)–22–14 – Papur 11 – Blaenraglen waith

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Offerynnau statudol gydag adroddiadau clir
22 Medi 2014

CLA443 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffisiotherapyddion–ragnodwyr, Podiatryddion–ragnodwyr neu Giropodyddion–ragnodwyr Annibynnol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014

Gweithdrefn: Negyddol

Caniateir rhagnodi atodol ac annibynnol yn rhinwedd deddfwriaeth meddyginiaethau y DU. Mae Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 bellach yn caniatáu i ffisiotherapydd–ragnodydd annibynnol a phodiatrydd–ragnodydd neu giropodydd–ragnodydd annibynnol roi presgripsiynau. Caiff y gweinyddiaethau datganoledig weithredu hyn yn ôl eu dymuniad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:-

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013;
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004; a
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007;

drwy estyn y diffiniad o ragnodydd drwy fewnosod categorïau newydd o ragnodydd annibynnol, sef ffisiotherapydd–ragnodydd annibynnol; a phodiatrydd–ragnodydd neu giropodydd–ragnodydd annibynnol.

Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 yn cael eu diwygio i estyn yr esemptiad i'r gofyniad i godi tâl am fagiau siopa untro, a ddefnyddir yn unig i ddal cynnyrch meddyginiaethol neu gyfarpar rhestredig a ddarperir yn unol â phresgripsiwn a ddyroddir gan ragnodwyr penodol, i'r rhai a ddyroddir gan ffisiotherapydd–ragnodydd annibynnol; a phodiatrydd–ragnodydd neu giropodydd–ragnodydd annibynnol.

CLA445 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014

Gweithdrefn: Negyddol

Mae adran 2 yn Rhan 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 yn darparu bod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i barhau i fodoli ond y bydd yn newid ei enw i Gyngor y Gweithlu Addysg (“y Cyngor”). Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r Cyngor. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag aelodaeth y Cyngor a phenodi'r prif swyddog.

CLA447 – Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2014

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniadau o ranbarthau talu 'rhostir' ac 'ardal dan anfantais difrifol' yng Nghymru. Maent hefyd yn ehangu'r criterion ar gyfer apelio yn erbyn dosbarthiad tir at ddibenion y Cynllun Taliad Sylfaenol.

Adroddiad drafft Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-22-14

CLA442 – Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013"), sy'n nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r cyfeiriad at y ddogfen hyfforddi "Cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion" yn Rheoliadau 2013. Ceir linc i'r ddogfen ddiwygiedig ar y dudalen yma –

<http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schoolfundingandplanning/schoolgov/governors-training/?lang=cy>

Gweithdrefn: Negyddol

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Cyfeiria rheoliad 2(2) at ddogfen a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014 tra bod y ddogfen a gyhoeddwyd yn dangos y dyddiad cyhoeddi fel Medi 2014. Mae paragraff 4.5 o'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cyfeirio at ddogfen a fyddai'n cael ei chyhoeddi ym mis Medi. Ni ellir felly bod yn gwbl sicr mai dyma'r ddogfen y cyfeirir ati yn y Rheoliadau.

[Rheol Sefydlog 21.2(vi) bod angen eglurhad pellach ynglŷn ag ystyr yr offeryn.]

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. Os yw'r dyddiad a nodir ar y ddogfen yn gywir, nid oedd y ddogfen wedi'i chyhoeddi pan wnaed y Rheoliadau. Mae adran 22(4) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 yn caniatáu rhagnodi hyfforddiant drwy gyfeirio at ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, dylai'r ddogfen fod wedi'i chyhoeddi pan wnaed y Rheoliadau, neu dylai hynny ddigwydd o leiaf ar yr un pryd. Y rheswm dros hynny yw y gellid tanseilio'r cyfle i graffu ar reoliadau yn unol â'r Mesur drwy gyfeirio at ddogfen nad oedd wedi'i chwblhau.

Yn yr achos presennol, nid yw hynny wedi digwydd, oherwydd (yn unol â Rheol Sefydlog 21.5) na ddylid cymryd i ystyriaeth toriad yr haf fel cyfnod ar gyfer craffu gan y Pwyllgor hwn. Yn yr un modd, nid yw hynny wedi digwydd o ran y posibilrwydd o gyflwyno cynnig i ddirymu, oherwydd (yn unol â Rheol Sefydlog 27.12) na ddylid cymryd i ystyriaeth toriad yr haf fel cyfnod ar gyfer cyflwyno cynnig. Er hynny, mae'n arfer y dylid ei osgoi.

[Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad;]

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Medi 2014

Ymateb y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yna beth amwysedd yn y ffaith bod rheoliad 2(2) o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014 ("Rheoliadau 2014") yn diwygio'r diffiniad o "yr hyfforddiant ar ddata

perfformiad ysgolion” yn rheoliad 2 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013. Mae'r diwygiad hwnnw yn cyfeirio at ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hyfforddi allanol yn y rheoliad hwnnw fel “Awst”. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hyfforddi allanol ei hun yn nodi iddi gael ei chyhoeddi ym mis “Medi”. Y dyddiad cyhoeddi cywir yw “Awst” ac felly bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r dyddiad cyhoeddi yn y ddogfen hyfforddi allanol i “Awst”. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r newid hwnnw gael ei wneud yn y dyddiau nesaf ac yn sicr cyn i'r darpariaethau yn y Rheoliadau ddod i rym.

Medi 2014

2014 Rhif 2225 (Cy. 214)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013"), sy'n nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r cyfeiriad at y ddogfen hyfforddi "Cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion" yn Rheoliadau 2013.

Mae rheoliad 2 hefyd yn diwygio rheoliad 5 o Reoliadau 2013 drwy roi paragraff (1) newydd yn lle'r un presennol, sy'n amlinellu pa ran o'r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion (naill ai Rhan 1 neu Ran 2) sy'n ofynnol gan lywodraethwyr ysgolion gan ddibynnu ar y math o ysgol.

Effaith y diwygiad hwn yw y bydd yn ofynnol i lywodraethwyr ysgolion arbennig cymunedol gwblhau hyfforddiant gwahanol i'r hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgolion eraill a gynhelir.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2014 Rhif 2225 (Cy. 214)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014

Gwnaed 20 Awst 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 22 Awst 2014

Yn dod i rym 19 Medi 2014

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 19 a 210 o Ddeddf Addysg 2002(1) ac adrannau 22(3) a (4) a 32 o Fesur Addysg (Cymru) 2011(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014 a deuant i rym ar 19 Medi 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr “dogfen 2013” (“*the 2013 document*”) yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o'r enw “Cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion”(3).

(1) 2002 p. 32. Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(1), (3)(c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(2) 2011 mccc 7.

(3) Rhif ISBN: 978-0-7504-9651-3.

Diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013

2.—(1) Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 yn y diffiniad o “yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion” (“*the school performance data training*”) yn lle “mis Medi 2013 o’r enw “Cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion””, rhodder “mis Awst 2014 o’r enw “Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion(2)””.

(3) Yn rheoliad 5 yn lle paragraff (1) rhodder—

“5.—(1) Pan fo llywodraethwr wedi ei benodi neu ei ethol i gorff llywodraethu ar ôl i’r Rheoliadau hyn ddod i rym, rhaid i’r llywodraethwr hwnnw, cyn pen blwyddyn ar ôl cael ei benodi neu ei ethol (p’un bynnag yw’r diweddaraf) (“cyfnod yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion”), gwblhau—

- (a) Rhan 1 o’r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion os yw’n llywodraethwr ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir; neu
- (b) Rhan 2 o’r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion os yw’n llywodraethwr ysgol arbennig gymunedol.

(1A) Pan fo llywodraethwr ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir sydd wedi cwblhau Rhan 1 o’r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion yn unol â’r Rheoliadau yn dod yn llywodraethwr ysgol arbennig gymunedol, nid yw’n ofynnol i’r llywodraethwr hwnnw gwblhau Rhan 2 o’r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion.

(1B) Pan fo llywodraethwr ysgol arbennig gymunedol sydd wedi cwblhau Rhan 2 o’r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion yn unol â’r Rheoliadau yn dod yn llywodraethwr ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir, nid yw’n ofynnol i’r llywodraethwr hwnnw gwblhau Rhan 1 o’r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion.”

(1) O.S. 2013/2124 (Cy. 207).
(2) ISBN-978-1-4734-1569-0.

Darpariaeth arbed

3. Nid oes unrhyw beth yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i lywodraethwr a gwblhaodd, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion fel a nodir yn nogfen 2013.

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion

Cymru

20 Awst 2014

**Explanatory Memorandum to the Government of Maintained Schools
(Training Requirements for Governors) (Wales) (Amendment) Regulations
2014**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Education and Skills and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the above Regulations.

Huw Lewis, AM
Minister for Education and Skills
19 August 2014

1. Description

1.1 The Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2014 (“the 2014 Regulations”) amend the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013 (“the 2013 Regulations”) which set out the training requirements for governors of maintained schools in Wales.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

2.1 None.

3. Legislative background

3.1 The Welsh Ministers’ powers to make these Regulations is contained in section 22 of the Education (Wales) Measure 2011 (“the Measure”). This section requires local authorities in Wales to provide information and training to governors, free of charge, on a range of issues that enable them to effectively discharge their functions. It also states that the Welsh Ministers may set out the content of that training in a published document.

3.2 In addition, sections 19, 23, and 210 of the Education Act 2002 provide that the Welsh Ministers may make regulations with respect to the eligibility of governors for election and appointment.

3.3 The powers of the National Assembly for Wales in the Education Act 2002 were transferred to the Welsh Ministers under Section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

3.4 These Regulations are subject to annulment and are being made using the negative resolution procedure.

4. Purpose & intended effect of the legislation

4.1 The purpose of these Regulations is to ensure that the mandatory data training being delivered is relevant to governors of community special schools as well as ordinary maintained schools. They achieve this by referring to a revised ‘Content of Training’ document which lists the issues and data that must be delivered as part of the data training module. The ‘Content of Training’ document referred to in the 2013 Regulations has been amended and now includes a new section specifically dedicated to the training of governors of special schools and the data relevant to them.

4.2 All newly appointed, newly elected or re-appointed, re-elected governors must attend the mandatory school performance data training within one year of

their appointment or election. Non completion of the training would result in a six month suspension, and if the training was not completed within that six month suspension period ultimately the governor would be disqualified.

4.3 Following discussions at the conference of head teachers of special schools in May 2013 there was agreement that the generic aspects of the data training would remain but the data discussion for governors of special schools would focus on:

- Development of maturity and behaviour,
- Development of important life skills,
- Development of independence,
- Literacy and numeracy,
- Attendance and
- Accredited qualifications (if appropriate)

4.4 These Regulations also make it clear that any governor who has completed the mandatory data training under the 2013 Regulations does not have to re-do the training in accordance with the 2014 Regulations. They also clarify that any governor who has completed the data training for ordinary maintained schools under the 2014 Regulations and changes governorship to become a governor of a special school, does not have to do the data training for special schools, and vice versa. This also applies to a person who is a governor of a special and ordinary school at the same time. Once they have completed one set of data training they do not have to re-do the training for the other school.

4.5 These Regulations simply refer to a new document listing the content of the mandatory data training for governors which now includes a list of the data relevant to governors of special schools and ordinary maintained schools, which will be published in September 2014.

5. Consultation

5.1 No formal consultation has been undertaken on these Regulations, however, we specifically sought the expertise and assistance of headteachers of special schools in Wales (who are also governors).

5.2 The Director of the all Wales Centre for Governors Research and Training, who was commissioned to help us deliver the specific training programme for governors of special schools, was invited to take part in a conference of headteachers of special schools, held on the 8 and 9 May 2013.

5.3 The headteachers of special schools supported the steps Welsh Government were taking to produce a data training programme that was relevant to them and their governors and the outcome of the conference was that those headteachers had a direct input and influence over the content of the data training which was subsequently approved by the Minister for Education and Skills.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

6.1 The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. These Regulations are making a technical amendment to the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013 and simply clarify the law in respect of requirements for completion of the data training.

Eitem 3.2

Adroddiad drafft Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-22-14

CLA444 – Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i orfodi, yng Nghymru, ddarpariaethau penodol yn Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 1924/2006 ac (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004 (OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t 18).

Maent hefyd yn gweithredu, yng Nghymru, ddarpariaethau penodol yn Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 1999/2/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ar fwydydd a chynhwysion bwydydd sydd wedi eu trin ag ymbelydredd ïoneiddio (OJ Rhif L 66, 13.3.1999, t 16) ac ail baragraff is-baragraff 1 o Erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2000/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cynhyrchion coco a siocled a fwriedir i bobl eu bwyta (OJ Rhif L 197, 3.8.2000, t 19).

Gweithdrefn: Negyddol

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Mae testun Saesneg rheoliad 1(5) yn pennu 13 Rhagfyr 2016 fel y dyddiad y bydd darpariaethau penodol yn dod i rym, tra bod y testun Cymraeg yn cyfeirio at 13 Gorffennaf y flwyddyn honno. Mae'r rhestr

'Cynnwys' a'r pennawd uwchben Rhan 3 o Atodlen 5 (y mae rheoliad 1(5) yn gymwys iddi) yn y ddwy iaith yn ei gwneud yn glir mai'r dyddiad yn nhestun Saesneg y rheoliad sy'n gywir. Bydd angen felly cywiro'r fersiwn Gymraeg cyn 13 Gorffennaf 2016.

[Rheol Sefydlog 21.2(vii) - anghysondebau rhwng testunau Cymraeg a Saesneg]

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Medi 2014

2014 Rhif 2303 (Cy. 227)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i orfodi, yng Nghymru, ddarpariaethau penodol yn Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 1924/2006 ac (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004 (OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t 18) ("FIC").

Maent hefyd yn gweithredu, yng Nghymru, ddarpariaethau penodol yn Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 1999/2/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cyddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ar fwydydd a chynhwysion bwydydd sydd wedi eu trin ag ymbelydredd ioneiddio (OJ Rhif L 66, 13.3.1999, t 16) ac ail baragraff is-baragraff 1 o Erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2000/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cynhyrchion coco a siocled a fwriedir i bobl eu bwyta (OJ Rhif L 197, 3.8.2000, t 19).

Mae rheoliad 3 yn cynnwys rhanddirymiad sy'n ymwneud â llaeth neu gynhyrchion llaeth a gynigir mewn potel wydr a fwriedir i'w haildefnyddio. Mae rheoliad 4 ac Atodlen 2 yn darparu rhanddirymiad sy'n ymwneud â defnyddio dynodiad briwrig ar gyfer brwrig nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion a nodwyd ym mhwynt 1 o Ran B o Atodiad VI i FIC.

Mae rheoliad 5 yn galluogi manylion sy'n ymwneud â sylwedd neu gynnyrch alergenaid mewn bwyd heb ei ragbecynnu i gael eu rhoi ar gael (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r rheoliad) gan ddefnyddio unrhyw ddull y mae gweithredwr busnes bwyd yn ei ddewis.

Rhaid i'r manylion gofynnol gael eu rhoi ar gael o dan FIC ond gellir eu rhoi ar gael gan ddefnyddio'r dulliau y darperir ar eu cyfer yn FIC neu yn unol â darpariaethau rheoliad 5.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i enw'r bwyd gael ei ddarparu yn achos bwydydd penodol nad ydynt wedi eu rhagbecynnu a bwydydd penodol sydd wedi eu rhagbecynnu i'w gwerthu'n uniongyrchol. Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i ddangosiad meintiol o'r cynnwys cig gael ei roi yn achos cynhyrchion penodol. Rhaid i'r manylion hynny gael eu rhoi yn un o'r ffyrdd a bennir yn rheoliadau 6(4) (yn achos enw'r bwyd) a 7(5) (yn achos y dangosiad o'r cynnwys cig). Nid yw darpariaethau rheoliadau 6(4) a 7(5) yn gymwys i gynnig i werthu a wneir drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell. Mae Erthygl 14(2) o FIC (fel y'i darllenir gyda darpariaethau perthnasol eraill FIC) yn gymwys yn achos cynnig o'r fath.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol gael ei darparu pan fydd cynhyrchion bwyd a arbelydrwyd neu gynhyrchion bwyd sy'n cynnwys cynhwysyn a arbelydrwyd yn cael eu gwerthu mewn swmp a phan fydd cynhwysion a arbelydrwyd yn cael eu defnyddio mewn cynhyrchion bwyd penodol sydd wedi eu rhagbecynnu.

Mae rheoliad 9 yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau bwyd ac awdurdodau iechyd porthladd i orfodi'r Rheoliadau. Mae rheoliad 10 yn peri mai trosedd yw methu â chydymffurfio â darpariaethau penodedig yn FIC ac â'r gofyniad ynglŷn ag alergenau yn rheoliad 5(5). Mae rheoliad 11 yn darparu ar gyfer y gosb i'r trosedd hwnnw.

Mae rheoliad 12 ac Atodlen 4 yn cymhwyso darpariaethau penodol yn Neddff Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p. 16), gydag addasiadau. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso (gydag addasiadau) adran 10(1), sy'n galluogi hysbysiad gwella i gael ei gyflwyno sy'n ei gwneud yn ofynnol i rywun gydymffurfio â darpariaethau penodedig yn FIC (ac eithrio i'r graddau y mae rhai o'r darpariaethau yn gymwys i'r manylyn gorfodol sy'n ymwneud â swm net neu swm yn gyffredinol) neu â darpariaethau penodedig yn rheoliadau 5 i 8. Mae'r darpariaethau, fel y'u cymhwysir, yn peri mai trosedd yw methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella.

Mae rheoliad 13 a chofnod 1 y tabl yn Rhan 1 o Atodlen 6 yn dirymu'r rhan fwyaf o Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (O.S. 1996/1499) ar 13 Rhagfyr 2014 i'r graddau y mae'r Rheoliadau hynny'n gymwys i Gymru. Mae rheoliad 13 a chofnod 1 y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 6 yn dirymu gweddill darpariaethau Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (ynglŷn â thermau sy'n ymwneud ag alcohol, hufen a chaws) ar 13 Rhagfyr 2018 i'r graddau y mae'r Rheoliadau hynny'n gymwys

i Gymru. Mae rheoliad 13 ac Atodlen 6 hefyd yn dirymu offerynnau statudol perthnasol eraill.

Mae rheoliad 14 ac Atodlen 7 yn diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996, i'r graddau y mae'r Rheoliadau hynny'n gymwys i Gymru, yn ystod y cyfnod cyn i'r Rheoliadau hynny gael eu dirymu (fel y disgrifir uchod). Maent yn diwygio offerynnau statudol eraill er mwyn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod deddfwriaeth berthnasol yr UE yn cael ei diddymu a'i disodli a bod Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 yn cael eu dirymu.

Mae rheoliad 14 a Rhan 1 o Atodlen 7 hefyd yn diwygio Rheoliadau Bwyd (Marcio Lotiau) 1996 (O.S. 1996/1502), fel y maent yn gymwys i Gymru, er mwyn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod Cyfarwyddeb y Cyngor 89/396/EEC (OJ Rhif L 186, 30.6.1989, t 21) yn cael ei ddiddymu a'i ddisodli gan Gyfarwyddeb 2011/91/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch dangosiadau neu farciau sy'n nodi i ba lot y mae deunydd bwyd yn perthyn (OJ Rhif L 334, 16.12.2011, t 1). Mae Rhan 2 o Atodlen 7 yn cynnwys y ddarpariaeth sy'n gweithredu ail baragraff is-baragraff 1 o Erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2000/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (a grybwyllir uchod).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, 11eg Llawr, Tŷ Southgate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW neu ar wefan yr Asiantaeth yn www.food.gov.uk/wales.

2014 Rhif 2303 (Cy. 227)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

Gwnaed 28 Awst 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 29 Awst 2014

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3) i (6)

CYNNWYS

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli
3. Rhanddirymiad ynglŷn â llaeth a chynhyrchion llaeth
4. Rhanddirymiad ynglŷn â briwgig
5. Bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnu etc. sy'n cynnwys sylwedd neu gynnyrch alergenaidd etc.
6. Bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnu etc. – gofyniad cyffredinol i'w henwi
7. Bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnu etc. sy'n cynnwys cig a chynhwysion eraill
8. Bwydydd a arbelydrwyd
9. Gorfodi
10. Trosedd
11. Cosbi
12. Cymhwyso darpariaethau'r Ddeddf
13. Dirymiadau
14. Diwygiadau canlyniadol a mân ddiwygiadau eraill i offerynnau statudol

- ATODLEN 1 — Darpariaethau yn y Rheoliadau hyn sy'n cynnwys cyfeiriadau newidiadwy at FIC yn rhinwedd rheoliad 2(3)
- ATODLEN 2 — Marc cenedlaethol ar gyfer y rhanddirymiad ynglŷn â briwrig
- RHAN 1 — Y marc cenedlaethol
- RHAN 2 — Manylebau'r marc cenedlaethol
- ATODLEN 3 — Bwydydd nad yw rheoliad 7 yn gymwys iddynt
- ATODLEN 4 — Cymhwyso ac addasu darpariaethau'r Ddeddf
- RHAN 1 — Addasu adran 10(1)
- RHAN 2 — Addasu adran 32(1)
- RHAN 3 — Addasu adran 37(1) a (6)
- RHAN 4 — Addasu adran 39(1) a (3)
- RHAN 5 — Cymhwyso ac addasu darpariaethau eraill yn y Ddeddf
- ATODLEN 5 — Hysbysiadau gwella – darpariaethau penodedig yn FIC
- RHAN 1 — Y ddarpariaeth yn FIC y caniateir i hysbysiad gwella gael ei gyflwyno mewn perthynas â hi ar ac ar ôl 19 Medi 2014
- PART 2 — Y darpariaethau yn FIC y caniateir i hysbysiad gwella gael ei gyflwyno mewn perthynas â hwy ar ac ar ôl 13 Rhagfyr 2014
- RHAN 3 — Y ddarpariaeth yn FIC y caniateir i hysbysiad gwella gael ei gyflwyno mewn perthynas â hi ar ac ar ôl 13 Rhagfyr 2016
- ATODLEN 6 — Dirymdiadau

- RHAN 1 — Dirymiadau sy'n dod i rym ar 13 Rhagfyr 2014
- RHAN 2 — Dirymiadau sy'n dod i rym ar 13 Rhagfyr 2018
- ATODLEN 7 — Diwygiadau canlyniadol a mân ddiwygiadau eraill i offerynnau statudol
 - RHAN 1 — Diwygiadau canlyniadol a mân ddiwygiadau eraill sy'n dod i rym ar 19 Medi 2014
 - RHAN 2 — Diwygiadau canlyniadol a mân ddiwygiadau eraill sy'n dod i rym ar 13 Rhagfyr 2014

Mae'r Rheoliadau a ganlyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 1924/2006 ac (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004(2) mewn darpariaethau penodol yn y Rheoliadau hyn gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Rheoliad hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972—

- (a) o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod)(3);

(1) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(2) OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t 18, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 78/2014 (OJ Rhif L 27, 30.1.2014, t 7).

(3) O.S. 2005/1971, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p. 32).

(b) o ran y polisi amaethyddol cyffredin(1).

I'r graddau y gwneir y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(2), mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48(4A)(3) o'r Ddeddf honno.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(4) wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan y canlynol—

- (a) i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoliad 2(3) ac Atodlen 1, paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(5);
- (b) i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoliadau 13 a 14 ac Atodlenni 6 a 7—
 - (i) adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, a pharagraff 1(A) o Atodlen 2 iddi;
 - (ii) adrannau 6(4), 16(1), 17, 18, 26, 45 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(6), a pharagraffau 1 a 4(b) o Atodlen 1 iddi ac sydd bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru(7); a

(1) O.S. 2010/2690.

(2) 1990 p. 16.

(3) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28).

(4) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 (OJ Rhif L 188, 18.7.2009, t 14).

(5) 1972 p.68 Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 a'i ddiwygio gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.

(6) 1990 p.16 Diwygiwyd adran 6(4) gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p. 40) a pharagraff 10(1) a (3) o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 ("Deddf 1999") a'i diddymu'n rhannol gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2002/794. Diwygiwyd adran 16(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 17 gan baragraffau 8 a 12 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2011/1043. Diwygiwyd adran 18 gan baragraffau 8 a 13 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Diddymwyd adran 26 yn rhannol gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 45 gan baragraffau 8 ac 20 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 48(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

(7) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

- (iii) adrannau 4(1), (2), (3), (4) ac (8) a 10 o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009(1); ac
- (c) i'r graddau y mae'n ymwneud â gweddill y rheoliadau a'r Atodlenni, adrannau 6(4), 16(1)(e), 17(1) a (2), 26(3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ac sydd bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Ac eithrio fel y darperir ym mharagraffau (4) i (6), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Rhagfyr 2014.

(4) At ddibenion y darpariaethau a ganlyn, daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Medi 2014—

- (a) rheoliad 4;
- (b) rheoliad 12 ac Atodlen 4 i'r graddau (drwy gymhwyso, gyda rhai addasiadau, ddarpariaethau penodedig yn y Ddeddf) y maent yn galluogi hysbysiad gwella i gael ei gyflwyno i berson yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â'r ddarpariaeth yn FIC a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 5 ac yn galluogi apêl i gael ei gwneud yn erbyn hysbysiad o'r fath ac ymdrin â'r apêl honno, a'i gwneud yn drosedd i fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwella o'r fath;
- (c) rheoliad 14 i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 1 o Atodlen 7;
- (d) Atodlen 2;
- (e) Rhan 1 o Atodlen 5; ac
- (f) Rhan 1 o Atodlen 7.

(5) At ddibenion y darpariaethau a ganlyn, daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Gorffennaf 2016—

- (a) Rhan 3 o Atodlen 5; a
- (b) rheoliad 12 ac Atodlen 4 i'r graddau (drwy gymhwyso, gyda rhai addasiadau, ddarpariaethau penodedig yn y Ddeddf) y maent yn galluogi hysbysiad gwella i gael ei gyflwyno i berson yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â'r ddarpariaeth yn FIC a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 5 ac yn galluogi apêl i gael ei gwneud yn erbyn hysbysiad o'r fath ac ymdrin â'r apêl honno, a'i gwneud yn drosedd i fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwella o'r fath.

(1) 2009 mccc 3.

(6) At ddibenion Rhan 2 o Atodlen 6, a rheoliad 13 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o Atodlen 6, daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Rhagfyr 2018.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “a gynigir i’w werthu” yr un ystyr a roddir i “offered for sale” yn Erthygl 44 ac mae “cynnig gwerthu” (“*offers for sale*”) i’w ddehongli yn unol â hynny;

mae i “arlwywr mawr” yr ystyr a roddir i “mass caterer” yn Erthygl 2(2)(d) ac mae “arlwywr mawr” (“*mass caterers*”) i’w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr “awdurdod bwyd” (“*food authority*”) yw—

(a) cyngor sir;

(b) cyngor bwrdeistref sirol;

mae i “bwyd wedi ei ragbecynnu” yr ystyr a roddir i “prepacked food” yn Erthygl 2(2)(e);

ystyr “Cyfarwyddeb 1999/2/EC” (“*Directive 1999/2/EC*”) yw Cyfarwyddeb 1999/2/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ynghylch cyd-ddynesiad cyfreithiau’r Aelod-wladwriaethau ar fwydydd a chynhwysion bwydydd sydd wedi eu trin ag ymbelydredd ïoneiddio⁽¹⁾;

mae i “cyfrwng cyfathrebu o hirbell” yr ystyr a roddir i “means of distance communication” yn Erthygl 2(2)(u);

mae i “defnyddiwr terfynol” yr ystyr a roddir i “final consumer” ym mhwynt 18 o Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr “FIC” (“*FIC*”) yw Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a’r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, sy’n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 1924/2006 ac (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a’r Cyngor, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor, Cyfarwyddebau’r Comisiwn 2002/67/EC

(1) OJ Rhif L 66. 13.3.1999, t 16, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1137/2008 Senedd Ewrop a’r Cyngor (OJ Rhif L 311, 21.11.2008, t 1).

a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004;

mae i “gweithredwr busnes bwyd” yr ystyr a roddir i “food business operator” ym mhwynt 3 o Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a’r Cyngor;

mae i “parod i’w fwyta” yr un ystyr a roddir i “ready for consumption” yn Erthygl 2(2)(d); ac

mae i “wedi ei ragbecynnu i’w werthu’n uniongyrchol” yr un ystyr a roddir i “prepacked for direct sale” yn Erthygl 2(2)(e).

(2) Ac eithrio fel y darperir fel arall—

(a) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Erthygl yn gyfeiriad at Erthygl yn FIC, a

(b) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Atodiad yn gyfeiriad at Atodiad i FIC.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad at FIC, neu ddarpariaeth yn FIC (gan gynnwys cyfeiriad at Erthygl yn FIC neu Atodiad iddo ac y mae paragraff (2) yn gymwys iddo) mewn darpariaeth yn y Rheoliadau hyn a restrir yn Atodlen 1 yn gyfeiriad at y ddarpariaeth honno fel y’i diwygiwyd o bryd i’w gilydd.

Rhanddirymiad ynglŷn â llaeth a chynhyrchion llaeth

3. Nid yw’r gofynion a nodir yn Erthyglau 9(1) a 10(1) yn gymwys i laeth na chynhyrchion llaeth a gynigir mewn potel wydr pan fwriedir i’r botel wydr gael ei hailddefnyddio.

Rhanddirymiad ynglŷn â briwgig

4.—(1) Nid yw’r gofynion a nodir ym mhwynt 1 o Ran B o Atodiad VI yn atal briwgig nad yw’n cydymffurfio â’r gofynion hyn rhag cael ei osod ar y farchnad gan ddefnyddio dynodiad briwgig os bydd y marc cenedlaethol yn Rhan 1 o Atodlen 2 yn ymddangos ar y label.

(2) Mae Rhan 2 o Atodlen 2 yn gymwys i ffurf y marc cenedlaethol.

(3) Ym mharagraff (1)—

mae i “ar y label” yr un ystyr ag sydd i “on the labelling” ym mhwynt 2 o Ran B o Atodiad VI fel y’i darllenir gyda’r diffiniad o “labelling” yn Erthygl 2(2)(j);

mae “ei osod ar y farchnad” (“*placed on the market*”) i’w ddehongli fel pe bai’n cymryd i ystyriaeth ystyr “placing on their national market” fel y’i defnyddir ym mhwynt 3 o Ran B o Atodiad VI.

Bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnu etc. sy'n cynnwys sylwedd neu gynnyrch alergenauidd etc.

5.—(1) Caniateir i weithredwr busnes bwyd sy'n cynnig gwerthu bwyd perthnasol y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo roi ar gael y manylion a bennir yn Erthygl 9(1)(c) (labelu sylweddau neu gynhyrchion penodol sy'n peri alergeddau neu anoddefeddau) ynglŷn â'r bwyd hwnnw drwy unrhyw ddull y mae'r gweithredwr hwnnw'n ei ddewis, gan gynnwys ar lafar, yn ddarostyngedig i baragraff (3).

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd perthnasol a gynigir i'w werthu i ddefnyddiwr terfynol neu i arlwywr mawr ac eithrio drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell ac sydd—

- (a) heb ei ragbecynnu,
- (b) wedi ei becynnu ar y fangre lle y gwerthir y bwyd ar gais y defnyddiwr, neu
- (c) wedi ei ragbecynnu i'w werthu'n uniongyrchol.

(3) Pan fo gweithredwr busnes bwyd yn bwriadu rhoi'r manylion a bennir yn Erthygl 9(1)(c) ynglŷn â bwyd perthnasol ar gael ar lafar, a bod sylwedd neu gynnyrch a restrir yn Atodiad II neu sy'n deillio o sylwedd neu gynnyrch a restrir yn Atodiad II yn cael ei ddefnyddio fel cynhwysyn neu gymorth prosesu wrth weithgynhyrchu neu baratoi'r bwyd, rhaid i'r gweithredwr ddangos bod modd sicrhau manylion y sylwedd neu'r cynnyrch hwnnw drwy ofyn i aelod o'r staff.

(4) Rhaid i'r dangosiad a grybwyllir ym mharagraff (3) gael ei roi—

- (a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu
- (b) ar hysbysiad, bwydlen, tocyn neu label sy'n glir i'w weld gan brynwr arfaethedig yn y man lle y mae'r prynwr arfaethedig yn dewis y bwyd hwnnw.

(5) O ran bwyd perthnasol y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo, rhaid i'r manylion yn Erthygl 9(1)(c) a roddwyd ar gael gan weithredwr busnes bwyd gael eu rhoi ar gael â chyfeiriad clir at enw'r sylwedd neu'r cynnyrch a restrir yn Atodiad II—

- (a) pan fo'r cynhwysyn neu'r cymorth prosesu perthnasol yn deillio o sylwedd neu gynnyrch a restrir yn Atodiad II, a
- (b) pan fo'r manylion yn cael eu rhoi ar gael ac eithrio drwy ddull y darperir ar ei gyfer yn FIC.

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr "bwyd perthnasol" ("*relevant food*") yw bwyd y mae cynhwysyn neu gymorth prosesu a restrir yn Atodiad II, neu sy'n deillio o sylwedd neu gynnyrch a restrir yn Atodiad II, wedi eu defnyddio wrth ei weithgynhyrchu neu ei baratoi ac yn dal yn bresennol yn y cynnyrch

gorffenedig (hyd yn oed os yw mewn ffurf a addaswyd).

Bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnu etc. – gofyniad cyffredinol i'w henwi

6.—(1) Rhaid i weithredwr busnes bwyd sy'n cynnig gwerthu bwyd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo ddarparu'r manylion sy'n ofynnol o dan Erthygl 9(1)(a) (enw'r bwyd) fel y'i darllenir gyda'r canlynol—

- (a) Erthygl 17(1) i (4), a
- (b) yn achos bwyd a gynigir i'w werthu gan ddefnyddio dynodiad briwgig yn enw—
 - (i) Erthygl 17(5) a phwynt 1 o Ran B o Atodiad VI, a
 - (ii) pwynt 3 o Ran B o Atodiad VI fel y'i darllenir gyda rheoliad 4 ac Atodlen 2.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd a gynigir i'w werthu i ddefnyddiwr terfynol neu arlwywyr mawr ac sydd—

- (a) heb ei ragbecynnu,
- (b) wedi ei becynnu ar y fangre lle y gwerthir y bwyd ar gais y defnyddiwr, neu
- (c) wedi ei ragbecynnu i'w werthu'n uniongyrchol.

(3) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd a baratowyd i fod yn barod i'w fwyta gan ddefnyddiwr terfynol a gynigir i'w werthu i ddefnyddiwr terfynol gan arlwywyr mawr (boed mewn sefydliad arlwyo mawr lle y gwerthir yn bersonol i ddefnyddiwr terfynol ynteu drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell) fel rhan o'i fusnes fel arlwywr mawr.

(4) Rhaid i'r manylion ymddangos—

- (a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu
- (b) ar hysbysiad, tocyn neu label sy'n glir i'w weld gan brynwr arfaethedig yn y man lle y mae'r prynwr arfaethedig yn dewis y bwyd hwnnw.

(5) Nid yw paragraff (4) yn gymwys yn achos cynnig i werthu a wneir drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell.

Bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnu etc. sy'n cynnwys cig a chynhwysion eraill

7.—(1) Rhaid i weithredwr busnes bwyd sy'n cynnig gwerthu bwyd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo ddarparu'r manylion sy'n ofynnol o dan Erthygl 9(1)(d) (swm cynhwysion penodol), fel y'i darllenir gydag Erthygl 22 ac Atodiad VIII, o ran y cynhwysion yn y bwyd sy'n gig.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd (heblaw bwyd a bennir yn Atodlen 3) a gynigir i'w werthu i ddefnyddiwr terfynol neu arlwywr mawr, sy'n cynnwys cig ac unrhyw gynhwysyn arall ac sydd—

- (a) heb ei ragbecynnu,
- (b) wedi ei becynnu ar y fangre lle y gwerthir y bwyd ar gais y defnyddiwr, neu
- (c) wedi ei ragbecynnu i'w werthu'n uniongyrchol.

(3) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd a baratowyd i fod yn barod i'w fwyta gan ddefnyddiwr terfynol a gynigir i'w werthu i ddefnyddiwr terfynol gan arlwywr mawr (boed mewn sefydliad arlwy mawr lle y gwerthir yn bersonol i ddefnyddiwr terfynol ynteu drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell) fel rhan o'i fusnes fel arlwywr mawr.

(4) Mae swm y cig sydd i'w bennu yn y manylion a grybwyllir ym mharagraff (1) i'w bennu drwy gymryd i ystyriaeth y darpariaethau ynghylch cyfanswm y cynnwys braster a meinwe gysylltiol ym mhwynt 17 o Ran B o Atodiad VII, gan gynnwys unrhyw addasiad tuag i lawr sy'n angenrheidiol mewn achos lle y mae cyfanswm y cynnwys braster a meinwe gysylltiol yn y bwyd yn fwy na'r gwerthoedd a ddangosir yn y tabl yn y pwynt hwnnw.

(5) Rhaid i'r manylion ymddangos—

- (a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu
- (b) ar hysbysiad, tocyn neu label sy'n glir i'w weld gan brynwr arfaethedig yn y man lle y mae'r prynwr arfaethedig yn dewis y bwyd hwnnw.

(6) Nid yw paragraff (5) yn gymwys yn achos cynnig i werthu a wneir drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell.

(7) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “cig” (“*meat*”) yw cyhyrau ysgerbydol rhywogaethau o famaliaid ac adar y cydnabyddir eu bod yn addas i'w bwyta gan bobl gyda'r feinwe y mae'n ei chynnwys yn naturiol neu feinwe ymlynol ond nid yw'n cynnwys cig a wahanir yn fecanyddol; ac

mae i “cig a wahanir yn fecanyddol” yr ystyr a roddir i “mechanically separated meat” ym mhwynt 1.14 o Atodiad I i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n deillio o anifeiliaid⁽¹⁾.

(1) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t 55, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 633/2014 (OJ Rhif L 175, 16.6.2014, t 6).

Bwydydd a arbelydrwyd

8.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n gosod ar y farchnad, mewn swmp, gynnyrch y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo, sicrhau bod y dangosiad perthnasol yn ymddangos, ynghyd ag enw'r cynnyrch, ar arddangosiad neu hysbysiad uwchben y cynhwysydd y gosodir y cynhyrchion ynddo ar y farchnad neu wrth ochr y cynhwysydd hwnnw.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys—

- (a) i gynnyrch a fwriedir i'r defnyddiwr terfynol neu i arlwywyr mawr sydd wedi ei drin ag ymbelydredd ìoneiddio, a
- (b) i gynnyrch a fwriedir i'r defnyddiwr terfynol neu i arlwywyr mawr sy'n cynnwys cynhwysyn sydd wedi ei drin ag ymbelydredd ìoneiddio.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n gosod ar y farchnad gynnyrch y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo sicrhau bod y dangosiad perthnasol yn ymddangos yn rhestr cynhwysion y cynnyrch hwnnw er mwyn dangos bod y cynnyrch wedi ei arbelydru.

(4) Mae paragraff (3) yn gymwys i gynnyrch a fwriedir ar gyfer y defnyddiwr terfynol neu arlwywyr mawr—

- (a) sy'n cynnwys cynhwysyn cyfansawdd mewn achos lle y mae un o gynhwysion y cynhwysyn cyfansawdd hwnnw wedi ei drin ag ymbelydredd ìoneiddio, a
- (b) y byddai, mewn perthynas â'r cynhwysyn cyfansawdd hwnnw, ddarpariaethau pwynt 2 o Ran E o Atodiad VII (sy'n nodi achosion lle nad yw rhestr o gynhwysion ar gyfer cynhwysion cyfansawdd yn orfodol) yn gymwys, oni bai am y gofyniad ym mharagraff (3).

(5) Y dangosiad perthnasol yw'r geiriau "irradiated" neu'r geiriau "treated with ionising radiation".

(6) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol—

- (a) cynnyrch a fu'n agored i ymbelydredd ìoneiddio a gynhyrchwyd gan ddyfeisiau mesur neu arolygu, ar yr amod nad yw'r dogn a amsugnwyd yn fwy na 0.01 Gy yn achos dyfeisiau arolygu sy'n defnyddio niwtronau a 0.5 Gy mewn achosion eraill, ar lefel ynni ymbelydredd uchaf o 10 MeV yn achos pelydr X, 14 MeV yn achos niwtronau a 5 MeV mewn achosion eraill, neu
- (b) cynnyrch a baratoir i gleifion y mae arnynt angen deietau sterilaid o dan oruchwyliaeth feddygol.

(7) Yn y rheoliad hwn—

